# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Fersiwn 0.4 Awst 2023

# Cynnwys


| Rhif Rheol | Rheol | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Dehongliad | 3 |
| 2 | Cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a Deddfwriaeth Berthnasol Ewrop a'r DU | 5 |
| 3 | Eithriadau a Hepgoriad | 7 |
| 4 | Awdurdod Dirprwyedig i Ymrwymo i Gontractau | 13 |
| 5 | Datgan Buddiannau | 14 |
| 6 | Tendro Dewisol, Gwahoddiad i Dendro a Dyfynbrisiau | 14 |
| 7 | Trothwyon a Gofynion Hysbysebu | 17 |
| 8 | Ymchwil ac Ymgynghoriad ar y Farchnad Cyn Tendro | 19 |
| 9 | Caffael gan Ymgynghorwyr | 19 |
| 10 | Gweithdrefnau Caffael Eraill | 19 |
| 11 | Enwi Cynhyrchion, Is-gontractwyr a Chyflenwyr | 20 |
| 12 | Tendro Electronig | 20 |
| 13 | Cyflwyno a Chystodaeth Tendrau a Dyfynbrisiau | 21 |
| 14 | Agor Tendrau Electronig | 21 |
| 15 | Diwygio Tendrau | 22 |
| 16 | Trafodaethau ac Eglurhad ar ôl Tendro | 22 |
| 17 | Gwerthuso Tendrau | 23 |
| 18 | Derbyn a Dyfarnu Tendrau | 23 |
| 19 | Llythyrau o Fwriad | 24 |
| 20 | Gweithredu Contractau | 24 |
| 21 | Aseiniad a Newyddiad | 25 |
| 22 | Terfynu Contractau | 25 |
| 23 | Terfynau Ariannol | 26 |
| 24 | Cadw a Rheoli Cofnodion a Dogfennau | 26 |
| 25 | Rheoli Contractau | 26 |
| 26 | Cofrestr Contractau Corfforaethol | 27 |

## 1. Dehongliad

Yn y Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn:-

Ystyr "Corff Priodol" yw'r Cabinet, ac unrhyw bwyllgor, panel neu gorff arall y dirprwywyd pŵer iddo i dderbyn tendrau ar gyfer Contractau'r categori y mae tendrau i gael eu gwahodd neu wedi cael eu gwahodd ar ei gyfer.

Ystyr "Prif Swyddog Priodol" yw pa un bynnag o'r canlynol sy'n gyfrifol mewn unrhyw achos penodol am wahodd tendrau neu osod gorchymyn swyddogol:-

Prif Weithredwr
Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a'r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys unrhyw Swyddog y dirprwywyd swyddogaethau iddo o dan Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor

Ystyr "Cabinet" yw corff gweithredol y Cyngor a sefydlwyd yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae "Swyddogaethau'r Cabinet" yn golygu'r swyddogaethau y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt.

Ystyr "Aelodau'r Cabinet" yw'r arweinydd ac aelodau'r Cabinet.

Ystyr "Prif Swyddog Archwilio" yw Pennaeth Gwasanaeth Archwilio y Cyngor.

Ystyr "Prif Swyddog Cyllid" yw'r swyddog Adran 151 enwebedig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am y tro, sydd â chyfrifoldeb statudol dros weinyddu materion ariannol y Cyngor.

Bydd "Buddion Cymunedol" yn cynnwys unrhyw fudd i'r gymuned leol nad yw'n effeithio'n gadarnhaol yn uniongyrchol ar weithrediad y Cyngor. Gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau/adnoddau ychwanegol neu hyfforddi pobl anweithgar yn bennaf trwy raglenni a allai gynnwys prentisiaethau. Buddion "Craidd" yw'r rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phwrpas y Contract a gellir eu mesur fel canlyniad. Buddion "Anghreiddiol" yw'r rhai nad ydynt yn hanfodol wrth ddarparu'r gwasanaeth ac ni fyddant yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses o werthuso tendrau.

Ystyr "Contract" yw unrhyw fath o gontract neu gytundeb a wneir gan y Cyngor gydag unrhyw barti arall ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith, neu unrhyw gyfuniad ohonynt.

Mae "Contractwr" yn golygu unrhyw berson neu sefydliad sy'n ymgymryd â pherthynas Gontractiol â'r Cyngor.

Mae "Gwerth y Contract" yn golygu cyfanswm gwerth y Contract dros gyfnod cyfan y Contract. Os nad oes cyfanswm pris yna mae gwerth y Contract i'w gyfrifo ar y gwariant cyfanredol disgwyliedig dros y cyfnod o bedair blynedd, os nad oes cyfnod penodol ar gyfer y Contract. Mewn achos lle ceir cyfnod i'r Contract ond dim cyfanswm cost yna mae gwerth y Contract i'w gyfrifo ar y gwariant disgwyliedig dros gyfnod y Contract cyfan, yn unol â'r Rheoliadau. Nid yw'r holl werthoedd Contract yn cynnwys TAW.

Ystyr "Cofrestr Contractau Corfforaethol" yw cronfa ddata fyw o gontractau a osodir gan y Cyngor.

Ystyr "Rheolwr Caffael Corfforaethol" yw Swyddog Arweiniol yr Uned Caffael Corfforaethol, sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros gyflawni strategaeth a chanllawiau Caffael.

Ystyr "Cyngor" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ystyr "Deddfwriaeth Diogelu Data" yw (i) GDPR y DU ac unrhyw Gyfraith weithredu genedlaethol berthnasol, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; (ii) Deddf Diogelu Data 2018 i'r graddau y mae'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd; (iii) yr holl Gyfraith berthnasol ynghylch prosesu data personol a phreifatrwydd.

Ystyr "UE" yw'r Undeb Ewropeaidd.

Mae "Ffurflen Tendr" yn ddogfen gwmpasu a lofnodwyd gan y tendrwr i nodi ei fod yn deall y tendr ac yn derbyn y telerau ac amodau a'r gofynion eraill o gymryd rhan yn yr ymarferiad, y gellir dod o hyd i gopi ohoni ar y Dudalen Caffael Corfforaethol.

Ystyr "Cytundeb Fframwaith" yw cytundeb rhwng un neu fwy o awdurdodau contractio ac un neu fwy o weithredwyr economaidd, a'u diben yw sefydlu'r telerau sy'n llywodraethu Contractau sydd i'w dyfarnu yn ystod cyfnod penodol, yn enwedig o ran pris a, lle y bo'n briodol, y swm a ragwelir.

Mae "Darparwyr Mewnol" yn golygu sefydliad sy'n cael ei reoli, ei ariannu a'i staffio gan y Cyngor, sy'n darparu gwasanaeth i wahanol gyfarwyddiaethau ac ysgolion fel ei fusnes craidd.

Mae "Gofynion Cyfreithiol" yn golygu holl gyfraith Cymru a'r DU sy'n llywodraethu a/neu'n ymwneud â chaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith a gosod contractau consesiwn.

Y "Swyddog Monitro" yw'r swyddog sydd, am y tro, yn cael ei ddynodi felly o dan Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae "Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol" (TMEF) yn golygu maen prawf sy'n galluogi'r Cyngor i ystyried meini prawf sy'n adlewyrchu agweddau ansoddol, technegol a chynaliadwy ar y tendr yn ogystal â phris wrth ddod i benderfyniad dyfarnu

Mae "Partïon" yn golygu, gyda'i gilydd, y Cyngor ac unrhyw barti arall neu fwy nag un parti sy'n ymrwymo i Gontract neu gytundeb.

Ystyr "Taflen Wybodaeth neu Ffurflen Gomisiynu i Gleientiaid Cyn Tendro" yw dogfen y mae angen iddi gael ei chwblhau gan y cleient cyn mynd allan i dendr neu gael dyfynbrisiau oni bai bod Adroddiad Cabinet wedi'i gymeradwyo. Mae copi ar y Dudalen Caffael Corfforaethol.

Mae "Rheoliadau" yn golygu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015;

Ystyr "Cyfnodolyn Masnach" yw papur newydd neu gyfnodolyn sy'n cylchredeg ymhlith y fath bersonau neu gyrff sy'n ymgymryd â Chontractau o'r categori y mae tendrau i'w gwahodd ar ei gyfer.

Mae "GDPR y DU" yn golygu Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r Deyrnas Unedig.

Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn unig yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.

Bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw ddarpariaeth statudol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad ohoni ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt.

## 2. CYDYMFFURFIO Â RHEOLAU'R WEITHDREFN GONTRACTAU A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL EWROP A'R DU

2.1 Bydd pob Contract:

(a) Yn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys yn benodol y Rheolau Gweithdrefn Ariannol, y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn;

(b) Yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol perthnasol, gan gynnwys yn benodol, ond heb fod yn gyfyngedig i, Ran II Deddf Llywodraeth Leol 1988, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997, Rhan I Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Rheoliadau;

(c) Yn cyflawni'r Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol;

(d) Yn gyson â'r safonau uchaf o ran uniondeb, gan ystyried Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a Deddf Cystadleuaeth 1998;

(e) Yn sicrhau tegwch wrth ddyrannu contractau cyhoeddus;

(1) Yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

(g) Yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010;

(h) Yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015;

(i) Yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol;

(j) Yn cefnogi nodau a pholisïau corfforaethol ac adrannol y Cyngor a chydymffurfio ag unrhyw bolisi'r Cyngor;

(k) Yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data;

(l) Yn cymhwyso’r dull a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru fel safon i ddethol Cyflenwyr;

(m) Yn cael ei gaffael yn unol â'r holl ganllawiau cynllunio caffael a gyhoeddir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

2.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Prif Swyddog Priodol yn sicrhau, os yw'r Gwerth Contract amcangyfrifedig neu swm Contract arfaethedig (neu gyfres o Gontractau) yn debygol o fod yn hafal neu'n uwch na'r trothwyon a bennir gan y Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Contractau, yna rhaid i'r gweithdrefnau tendro sydd i'w mabwysiadu fod yn unol â'r Rheoliadau, ac unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n ymwneud â nhw.

2.3 Gellir isrannu contractau ar gyfer caffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau yn lotiau lle bo hynny'n briodol ac yn unol â'r Rheoliadau ond ni ddylid defnyddio lotiau lle mai'r canlyniad fyddai osgoi neu effeithio ar gymhwyso Rheolau’r Weithdrefn Gontractau.

2.4 Ni fydd caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael ei orbrisio neu danbrisio’n artiffisial a fyddai'n naill ai’n arwain at osgoi Rheolau'r Weithdrefn Gontractau neu’n effeithio ar gymhwyso Rheolau’r Weithdrefn Gontractau.

2.5 Bydd yn amod o unrhyw gontract rhwng y Cyngor ac unrhyw berson (nad yw'n Swyddog y Cyngor) y mae'n ofynnol iddo oruchwylio Contract ar ran y Cyngor, mewn perthynas â'r Contract, ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

2.6 Caiff y Swyddog Monitro gyda chytundeb y Prif Swyddog Cyllid gyhoeddi canllawiau neu brotocolau caffael, a bydd pob Prif Swyddog ac unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo oruchwylio Contract ar ran y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i unrhyw ganllawiau neu brotocol o'r fath.

2.7 Nid yw'r defnydd o wasanaethau mewnol a Darparwyr Mewnol y Cyngor yn dod o dan y Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn, nac yn ddarostyngedig iddynt. Bydd unrhyw gontract a osodir wedi hynny gan y gwasanaethau mewnol a'r Darparwyr Mewnol i isgontractwyr yn cael ei osod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn.

2.8 Gall unrhyw fethiant gan swyddogion i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn neu ganllawiau cysylltiedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor arwain at gamau disgyblu.

2.9 Rhaid i awdurdod priodol fod ar waith cyn i unrhyw gaffael gael ei wneud ar ran y Cyngor.

2.10 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch dehongli'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn yn cael eu cyfeirio at y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a’r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro i'w datrys mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

2.11 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn yn ymdrin â chaffael a gynhelir o dan y Rheoliadau yn unig. Lle mae'n ofynnol caffael o dan Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, rhaid gofyn am awdurdod gan y Corff Priodol drwy eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn er mwyn cynnal caffael o'r fath yn unol â Rheol 3.1.7.

# 3. EITHRIADAU A HEPGORIAD

## Eithriadau i Reolau’r Weithdrefn Gontractau

3.1 Nid yw Rheolau’r Weithdrefn Gontractau’n berthnasol i'r sefyllfaoedd a nodir yn Rheolau 3.1.1 i 3.1.7.

3.1.1 I gaffael neu waredu tir, oni bai ei fod yn cynnwys cytundeb datblygu a fyddai'n gofyn am broses dendro.

3.1.2 Yn achos trefniadau proffesiynol yn unol â Rheoliad 10 o'r Rheoliadau rhwng Cyfreithiwr a Chwnsler y Cyngor neu Gyfreithwyr allanol, ni ddisgwylir i'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol na’r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro gydymffurfio â gofynion y Rheol hon wrth gyfarwyddo a briffio Cwnsler neu Gyfreithwyr. Bydd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a’r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro yn gwneud trefniadau i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl gyfarwyddiadau neu friffiau o'r fath ynghyd â chofnod o ffioedd Cwnsela / Cyfreithwyr.

3.1.3 Er mwyn cyflawni gwaith diogelwch lle gallai cyhoeddi dogfennau yn unol â'r weithdrefn dendro anfanteisio diogelwch y gwaith sydd i'w wneud, ar yr amod bod y dull o dendro wedi'i gymeradwyo gan y Corff Priodol.

3.1.4 Contractau cyflogaeth sy'n gwneud unigolyn yn gyflogai uniongyrchol i'r Cyngor.

3.1.5 Contractau rhwng endidau o fewn y sector cyhoeddus fel y rhagnodir yn Rheoliad 12 o'r Rheoliadau, gan gynnwys y Contractau hynny lle byddai Rheoliad 12 yn gymwys pe na bai Gwerth y Contract yn is na'r trothwyon ariannol a bennir yn y Rheoliadau neu gan y Rheoliadau, ar yr amod bod y trefniant wedi'i gymeradwyo gan y Corff Priodol.

3.1.6 Mewn sefyllfa o argyfwng lle ceir bygythiad o anaf neu ddifrod i bersonau neu eiddo ac os felly gall y Prif Swyddog Priodol gymryd unrhyw gamau angenrheidiol ond rhaid iddo adrodd am yr amgylchiadau a'r camau a gymerwyd i gyfarfod nesaf y Corff Priodol.

3.1.7 Pan fydd yn ofynnol i gaffael gael ei gynnal o dan Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 neu Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, ar yr amod bod y defnydd o Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 neu Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 wedi'i gymeradwyo gan y Corff Priodol.

**Hepgoriadau**

3.2 Bydd hepgoriad rhag cael dyfynbrisiau neu dendro ond yn berthnasol i'r meini prawf a restrir yn Rheolau 3.2.1 i 3.2.12 isod a rhaid cael unrhyw hepgoriad, naill ai:

(a) mewn perthynas ag unrhyw Gontract newydd gan y Corff Priodol lle mae gwerth y Contract yn fwy na £100,000; neu

(b) mewn perthynas ag unrhyw Gontract newydd yn unol â Chynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor lle nad yw gwerth y Contract yn fwy na £100,000.

3.2.1 Lle na dderbyniwyd unrhyw ddyfynbrisiau na thendrau mewn ymateb i weithdrefn y Cyngor ar gyfer cael cynigion cystadleuol. Mae hyn i gynnwys y weithdrefn agored, y weithdrefn gyfyngedig, deialog gystadleuol, y weithdrefn gystadleuol gyda negodi, gweithdrefnau partneriaethau arloesol lle mae caffael yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau.

3.2.2 Mae'r Contract dan sylw at ddibenion ymchwil, arbrofi, astudio neu ddatblygu o dan yr amodau a nodir yn y Rheoliadau yn unig.

3.2.3 Dim ond gweithredwr economaidd penodol a all ddarparu'r gwaith/nwyddau/gwasanaethau am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:—

(i) nod y caffaeliad yw creu neu gaffael gwaith celf neu berfformiad artistig unigryw,
(ii) mae cystadleuaeth yn absennol am resymau technegol,
(iii) diogelu hawliau unigryw, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol,

ond dim ond, yn achos paragraffau (ii) a (iii), lle nad oes dewis arall neu eilydd rhesymol yn bodoli ac nad yw absenoldeb cystadleuaeth yn ganlyniad i gulhau artiffisial o baramedrau'r caffaeliad.

3.2.4 Brys eithafol a achoswyd gan ddigwyddiadau na ellid eu rhagweld gan y Cyngor ac yn unol â'r amodau llym a gynhwysir yn y Rheoliadau.

3.2.5 Gwaith/gwasanaethau newydd, sy'n cynnwys ailadrodd gwaith/gwasanaethau presennol ac a archebir yn unol â'r amodau llym

sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau, yn amodol ar gymeradwyaeth yn unol â Rheol 3.5

3.2.6 Contract a ddyfernir i'r tendrwr llwyddiannus neu un ohonynt ar ôl cystadleuaeth ddylunio.

3.2.7 Ar gyfer cyflenwadau a ddyfynbrisir ac a brynir ar farchnad nwyddau.

3.2.8 Ar gyfer prynu cyflenwadau ar delerau arbennig o fanteisiol gan Gyflenwr sy'n bendant yn dirwyn ei weithgareddau busnes i ben, neu gan dderbynyddion neu ddatodwyr ansolfedd, methdaliad, trefniant gyda chredydwyr neu weithdrefn debyg.

3.2.9 Yn achos Contractau ar gyfer gwasanaethau yr ymrwymir iddynt yn unol â phwerau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, Deddf Plant 1989, Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er budd cleient unigol, bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i'r graddau y mae'n gyson â'r gyfraith, yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer darparu.

3.2.10 Lle mae gweithdrefn dendro yn cael ei rhagnodi gan ddeddfwriaeth.

3.2.11 Contractau y gellir eu cyflawni gan ymgymerwr statudol yn unig.

3.2.12 Pan fydd nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael eu caffael gan gorff cyhoeddus arall ar ran y Cyngor neu drwy drefniadau cydweithredol a ddyfernir drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol neu'r Grŵp Cyflawni Rhanbarthol neu gan y Cyngor drwy Gontract sy'n cael ei osod yn briodol gan sefydliad arall o'r fath, yna bydd Rheolaeth Caffael / Gweithdrefn Gontractau'r sefydliadau hynny yn berthnasol yn amodol ar gydymffurfiaeth â Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Chaffael Cymru a Lloegr.

**<u>Addasiadau i Gontractau a Chytundebau Fframwaith presennol</u>**

3.3 Gellir addasu cytundebau contractau a fframweithiau heb yr angen am weithdrefn gaffael newydd yn unol â Rheolau 3.3.1 i Reolau 3.3.6:

3.3.1 Lle darperir yr addasiadau mewn Contract neu Gytundeb Fframwaith yn y dogfennau caffael cychwynnol mewn cymalau adolygu clir, manwl gywir a diamwys, a allai gynnwys cymalau neu opsiynau adolygu prisiau, ar yr amod bod cymalau o'r fath:

(a) yn nodi cwmpas a natur addasiadau neu opsiynau posibl yn ogystal â'r amodau y gellir eu defnyddio oddi tanynt, ac

(b) yn peidio â darparu ar gyfer addasiadau neu opsiynau a fyddai'n newid natur gyffredinol y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith;

3.3.2 Yn amodol ar Reol 3. 4 a Rheol 3.5 lle mae’r addasiad(au) mewn Contract neu Gytundeb Fframwaith ar gyfer gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau ychwanegol gan y Contractwr gwreiddiol sydd wedi dod yn angenrheidiol ac na chawsant eu cynnwys yn y caffaeliad cychwynnol, a lle byddai newid Contractwr:

(i) yn amhosibl am resymau economaidd neu dechnegol megis gofynion cyfnewidioldeb neu ryngweithredadwyedd gydag offer, gwasanaethau neu osodiadau presennol a gaffaelwyd o dan y caffaeliad cychwynnol, ac

(ii) yn achosi anghyfleustra sylweddol neu ddyblygu costau sylweddol i'r Cyngor,

ar yr amod nad yw unrhyw gynnydd yn y pris yn fwy na 50% o werth y Contract gwreiddiol;

At ddibenion cyfrifo'r pris, y ffigur wedi'i ddiweddaru fydd y ffigur cyfeirio pan fydd y Contract yn cynnwys cymal mynegeio.

3.3.3 Lle mae'r holl amodau canlynol yn cael eu cyflawni:

(i) mae'r angen am addasiad wedi'i achosi gan amgylchiadau na allai'r Cyngor fod wedi'u rhagweld;

(ii) nid yw'r addasiad yn newid natur gyffredinol y Contract;

(iii) nid yw unrhyw gynnydd yn y pris yn fwy na 50% o werth y Contract neu Gytundeb Fframwaith gwreiddiol.

At ddibenion cyfrifo'r pris, y ffigur wedi'i ddiweddaru fydd y ffigur cyfeirio pan fydd y Contract yn cynnwys cymal mynegeio.

3.3.4 Pan fydd Contractwr newydd yn disodli'r un yr oedd y Cyngor wedi dyfarnu'r Contract iddo yn wreiddiol o ganlyniad i:

(i) cymal adolygu diamwys neu opsiwn yn unol â Rheol 3.3.1, neu

(ii) olyniaeth gyffredinol neu rannol i sefyllfa'r Contractwr cychwynnol, yn dilyn ailstrwythuro corfforaethol, gan gynnwys meddiannu, uno, caffael neu ansolfedd, gweithredwr economaidd arall sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer dethol ansoddol a bennwyd i ddechrau, ar yr amod nad yw hyn yn golygu addasiadau sylweddol eraill i'r Contract ac nad yw wedi'i anelu at osgoi cymhwyso'r Rheoliadau.

3.3.5 Lle nad yw'r addasiadau, waeth beth yw eu gwerth, yn sylweddol. Ystyrir bod addasiad yn sylweddol lle bodlonir un neu fwy o'r amodau canlynol:

(i.) mae'r addasiad yn datgan y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith yn sylweddol wahanol o ran cymeriad i'r un a gwblhawyd yn wreiddiol; neu

(ii.) mae'r addasiad yn cyflwyno amodau a fydd, pe byddent wedi bod yn rhan o'r weithdrefn gaffael gychwynnol, wedi—

(a) caniatáu derbyn ymgeiswyr eraill i'r rhai a ddewiswyd yn wreiddiol,

(b) caniatáu derbyn tendr heblaw'r hyn a dderbyniwyd yn wreiddiol, neu

(c) denu cyfranogwyr ychwanegol yn y weithdrefn gaffael;

(iii.) mae'r addasiad yn newid cydbwysedd economaidd y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith o blaid y Contractwr mewn modd na ddarparwyd ar ei gyfer yn y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith cychwynnol;

(iv.) mae'r addasiad yn ymestyn cwmpas y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith yn sylweddol;

(v.) mae Contractwr newydd yn disodli'r un yr oedd yr awdurdod Contractio wedi dyfarnu'r Contract iddo i ddechrau mewn achosion heblaw'r rhai y darparwyd ar eu cyfer yn Rheol 3.3.4

3.3.6 Lle mae gwerth yr addasiad yn is na'r ddau werth canlynol:—

(i) trothwyon ariannol perthnasol a gynhwysir yn y Rheoliadau, a

(ii) 10% o'r Gwerth Contract cychwynnol ar gyfer Contractau gwasanaeth a chyflenwi a 15% o'r Gwerth Contract cychwynnol ar gyfer Contractau gwaith,

ar yr amod nad yw'r addasiad yn newid natur gyffredinol y Contract neu'r Cytundeb Fframwaith.

Pan wneir sawl addasiad olynol, y gwerth fydd gwerth cronnus net yr addasiadau olynol a'r ffigur wedi'i ddiweddaru fydd y ffigur cyfeirio pan fydd y Contract yn cynnwys cymal mynegeio.

3.4 Lle gwneir sawl addasiad olynol:—

(a) bydd y cyfyngiadau a osodir gan yr amod ar ddiwedd Rheol 3.3.2 a Rheol 3.3.3 (iii) yn gymwys i werth pob addasiad; ac

(b) ni fwriedir addasiadau olynol o'r fath i osgoi'r Rheoliadau.

3.5 Pan fo'r Cyngor wedi addasu Contract yn unol â Rheol 3.3.2 neu Reol 3.3.3, mae'n ofynnol i'r Cyngor anfon hysbysiad i'r perwyl hwnnw, yn unol â Rheoliad 51 o'r Rheoliadau i'w cyhoeddi. Bydd hysbysiad o'r fath yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliad 72.4 o'r Rheoliadau.

3.6 Rhaid cael cymeradwyaeth i unrhyw addasiad o Gontract neu Gytundeb Fframwaith presennol, naill ai:

(a) gan y Corff Priodol lle mae gwerth addasu Contract neu Gytundeb Fframwaith yn fwy na £100,000; neu

(b) yn unol â Chynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor lle nad yw gwerth addasu Contract neu Gytundeb Fframwaith yn fwy na £100,000.

**Hysbysiad Hepgor ac Addasu**

3.7 Os yw'r Prif Swyddog Priodol yn ceisio gan y Corff Priodol hepgoriad o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor o dan Reol 3.2 neu addasiad i Gontract neu Gytundeb Fframwaith presennol o dan Reol 3.3, bydd yr adroddiad i'r Corff Priodol yn nodi'r rheswm dros yr angen am hepgoriad neu addasiad a Rheol(au) y Weithdrefn Gontractau y mae angen ei/eu hepgor neu addasu. Bydd yr adroddiad yn cynnwys datganiad cyfreithiol ac ariannol a bydd yn tynnu sylw at unrhyw ymrwymiadau yn y dyfodol (boed o natur ariannol ai peidio) y gallai'r Contract arfaethedig arwain atynt.

3.8 Pan nad yw gwerth unrhyw hepgoriad neu addasiad yn fwy na £100,000, rhaid i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gymeradwyo'r rhesymau dros fynnu bod yr hepgoriad neu'r addasiad yn ofynnol, a'u cofnodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau.

3.9 Pan ofynnir am hepgoriad gan y Prif Swyddog Priodol mewn perthynas â chael dyfynbrisiau neu dendro, bydd yr adroddiad i'r Corff Priodol neu gofnod o'r penderfyniad o dan Gynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor, yn ychwanegol at ofynion Rheolau 3.7 a 3.8, yn cyfiawnhau'r defnydd o ddull dewis amgen fel y gellir arddangos priodoldeb, gwerth am arian a chydymffurfiaeth â gofynion Cyfreithiol.

3.10 Nid yw trefniadau prynu a wneir i'r Cyngor gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol yn gyfystyr ag eithriadau felly, oherwydd eu bod yn cael eu gwneud o dan ddarpariaethau llawn y Rheolau hyn.

3.11 Bydd defnydd cywir o'r trefniadau hyn, fel y cynghorir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol, yn ddigonol i sicrhau bod swyddogion yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros gydymffurfio. Mae trefniadau o'r fath yn orfodol ac yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

3.11.1 Fframweithiau Prynu a gymeradwywyd i'w defnyddio gan y Cyngor, lle mae eitemau'n cael eu pennu a'u costio ac y darperir ar gyfer yr opsiwn o Ddyfarniad Uniongyrchol, h.y., nid oes angen ymgymryd â chystadleuaeth fach arall.

3.11.2 Trefniadau caffael cydweithredol a wneir gan, neu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

3.11.3 Systemau electronig a chatalogau a gymeradwywyd i'w defnyddio gan y Cyngor wrth gaffael.

3.12 Rhaid i'r Prif Swyddog Priodol bennu a oes Cytundeb Fframwaith wedi'i gymeradwyo gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol i'w ddefnyddio gan y Cyngor. Pan fydd Cytundeb Fframwaith ar gael, rhaid ei ddefnyddio yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

3.13 Rhaid i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gymeradwyo unrhyw drefniadau caffael ar y cyd ag awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill, gan gynnwys aelodaeth neu ddefnydd o unrhyw gonsortia.

3.14 Bydd trefniadau fframwaith a chonsortia sefydledig a gymeradwywyd gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol i'w defnyddio gan y Cyngor yn orfodol ac eithrio pan fo hepgoriad neu eithriad cymwys. Bydd copi yn cael ei anfon at y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

3.15 Rhaid i gontractau sydd i'w dyfarnu ar sail Cytundeb Fframwaith fod yn unol â'r Rheoliadau. Lle bo angen cynnal cystadleuaeth fach arall, rhaid i unrhyw gystadleuaeth fach ddilynol fod yn unol â thelerau'r Cytundeb Fframwaith gwreiddiol (ac eithrio'r gofyniad i hysbysebu a'r camau hynny yn y broses gaffael nad ydynt yn berthnasol i fframwaith).

3.16 Nid yw'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn yn berthnasol i Gontractau a osodir gan gyrff llywodraethu ysgolion neu golegau sy'n gweithredu yn unol â'u cynlluniau dirprwyo neu reolau gweithdrefn gontractau cymeradwy.

## 4. Awdurdod Dirprwyedig i Ymrwymo i Gontractau

4.1 Dyrannwyd i bob Prif Swyddog y swyddogaethau canlynol o dan Gynllun B2 Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor (Swyddogaethau a ddirprwyir i Brif Swyddogion heb ymgynghori a galw i mewn) a fydd yn cael eu harfer lle mae gan unrhyw Gontract arfaethedig a weinyddir gan ei Gyfarwyddiaeth/Swyddfa werth amcangyfrifedig nad yw'n fwy na £1,000,000.00:

(a) I awdurdodi gwahoddiad i dendro;

(b) I dderbyn y Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract.

.

4.2 Dyrannwyd i bob Aelod Cabinet y swyddogaethau canlynol o dan Gynllun A Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor (Swyddogaethau'r Cabinet a ddirprwyir i Aelodau Cabinet Unigol) a fydd yn cael eu harfer lle mae gan

unrhyw Gontract arfaethedig sy'n dod o fewn portffolio'r Aelod Cabinet werth amcangyfrifedig o fwy na £1,000,000.00 ond heb fod yn fwy na £5,000,000.00:

(a) I awdurdodi gwahoddiad i dendro;

(b) I dderbyn y Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract.

4.3 Os yw gwerth amcangyfrifedig unrhyw Gontract arfaethedig yn fwy na £5,000,000.00, gofynnir am yr awdurdod i wneud unrhyw un o'r canlynol gan y Corff Priodol:

(a) I awdurdodi gwahoddiad i dendro;

(b) I dderbyn y Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol a dderbyniwyd ac ymrwymo i Gontract ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n atodol i'r Contract.

## 5. Datgan Buddiannau

5.1 Ni fydd unrhyw aelod, cyflogai neu asiant y Cyngor yn defnyddio eu safle yn amhriodol i gael unrhyw fudd personol neu breifat o unrhyw gaffael a wneir gan y Cyngor.

5.2 Bydd aelodau a chyflogeion y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llwgrwobrwyo 2010, a'r cod ymddygiad Swyddogion ac Aelodau a nodir yn y Cyfansoddiad mewn perthynas â datgan buddiannau mewn Contractau gyda'r Cyngor.

5.3 Rhaid datgan buddiannau o'r fath i'r Swyddog Monitro i'w cynnwys yn y cofrestrau priodol

5.4 Rhaid i swyddogion lenwi ffurflen gwrthdaro buddiannau a ffurflen datgan buddiannau cyn cymryd rhan mewn unrhyw ymarfer tendro a gellir dod o hyd i gopi ar y Dudalen Caffael Corfforaethol.

## 6. Tendro Dewisol, Gwahoddiad i Dendro a Dyfynbrisiau

6.1 Yn amodol ar unrhyw Ofynion Deddfwriaethol cyffredinol, gwahoddir pob caffaeliad yn unol â naill ai Reolau 7, 8 neu 9.

6.2 Bydd deiliad priodol y gyllideb gwasanaeth yn paratoi rhan berthnasol y Daflen Wybodaeth neu Ffurflen Gomisiynu i Gleientiaid Cyn Tendro ar gyfer pob gwahoddiad i dendro a dyfynbrisio ac yn cyflwyno hon i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol i'w chymeradwyo.

6.3 Bydd cofnod o dendrau a dyfynbrisiau’n cael ei gynnal gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol Adnoddau Dynol a'r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro, ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol.

6.4 Yn achos caffaeliadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn unol â'r Rheoliadau, rhaid ceisio cyngor y Rheolwr Caffael Corfforaethol ar y cychwyn ac ar bob cam dilynol o'r broses gaffael, a rhaid cwblhau'r Daflen Wybodaeth neu Ffurflen Gomisiynu i Gleientiaid Cyn Tendro. Bydd y Rheoliadau yn cael blaenoriaeth dros Reolau'r Weithdrefn Gontractau.

6.5 Mae gwerth caffael yn golygu'r cyfanswm amcangyfrifedig o werth ariannol dros ei gyfnod llawn, gan gynnwys unrhyw opsiynau estyn. Lle nad oes cyfnod penodol ar gyfer y Contract, bydd gwerth y Contract yn cael ei ystyried yn werth amcangyfrifedig y Contract dros gyfnod o bedair blynedd. Ni ellir rhannu unrhyw gaffael yn artiffisial er mwyn osgoi cydymffurfio â Rheolau’r Weithdrefn Gontractau a'r Gofynion Cyfreithiol hyn. Fodd bynnag, ni ddylid dehongli'r Rheol hon i osgoi'r gofynion sy'n ymwneud â "lotiau" o dan y Rheoliadau.

6.6 Ar gyfer Contractau gwaith, rhaid i bob Contractwr gael ei gofrestru a'i wirio ar Constructionline. Mae Constructionline yn dangos y Contractwyr a'r categorïau sydd wedi'u hasesu ymlaen llaw gyda gwerth contract a argymhellir. Mae'r gwerth contract a argymhellir yn seiliedig ar asesiad risg ariannol a dyma'r terfyn uchaf o waith y dylid ei roi gyda Chontractwr heb fesurau diogelu ychwanegol.

6.7 Y sail ar gyfer dewis cwmnïau ar Constructionline fydd drwy gylchdro a/neu addasrwydd contractwyr i ymgymryd â'r prosiect. Rhaid cofnodi rhesymau dros ddewis o'r fath

**Dyfynbrisiau**

6.8 Rhaid i'r gwahoddiad i gyflwyno dyfynbrisiau gynnwys y fanyleb, y telerau ac amodau a meini prawf gwerthuso/pwysiadau.

6.9 Rhaid caniatáu amser rhesymol i gyflenwyr ddychwelyd ceisiadau. Oni bennir fel arall gan frys, rhaid caniatáu isafswm cyfnod amser o ddim llai na 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd dyfynbrisiau.

6.10 Yn unol â gofynion y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau bydd cofnod yn cael ei gadw gan y Prif Swyddog Priodol yn y ffurf ragnodedig. Mewn unrhyw achos lle na chafwyd o leiaf dri chynnig neu ddyfynbris ysgrifenedig gwahanol, bydd y Prif Swyddog Priodol yn cofnodi'r rhesymau pam yr ystyriwyd ei bod yn anymarferol gwneud hynny. Yna dylid cofnodi hyn ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol.

**Tendrau**

6.11 Rhaid i'r holl ddogfennau gwahoddiad i dendro, gan gynnwys manyleb, meini prawf gwerthuso/pwysiadau, gael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

6.12 Rhaid caniatáu isafswm cyfnod amser o ddim llai na 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd tendrau, ac eithrio pan fo'r tendr yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ac os felly mae'r cyfnodau amser a bennir yn y Rheoliadau yn gymwys.

6.13 Ar gyfer pob Contract, rhaid i'r Cyngor ystyried sut y gallai'r hyn y bwriedir ei gaffael wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a diwylliannol yr ardal a sut, wrth gynnal y broses gaffael, y gallai weithredu gyda'r bwriad o sicrhau'r gwelliant hwnnw. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r amcanion llesiant y mae'r Cyngor wedi'u mabwysiadu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae canllawiau ar ddarparu gwerth cymdeithasol drwy gaffael ar gael ar y Dudalen Caffael Corfforaethol ar y Fewnrwyd.

6.14 Lle y bo'n briodol, bydd angen i'r Cyngor gynnwys cymalau Buddiannau Cymunedol i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl y gall cymalau o'r fath eu cynnig. Pan fo Buddiannau Cymunedol wedi'u cynnwys mewn unrhyw dendr a gyhoeddir gan y Cyngor, rhaid crybwyll hyn yn hysbyseb y tendr, gan nodi a ydynt yn Graidd neu'n Anghreiddiol.

6.15 Bydd pob Contract ysgrifenedig yn cynnwys cymalau ar ffurf a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â'r materion canlynol o leiaf.

6.15.1 Diogelu Data;
6.15.2 Rhyddid Gwybodaeth;
6.15.3 caethwasiaeth Fodern;
6.15.4 llwgrwobrwyo A Llygredd;
6.15.5 Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
6.15.6 Safonau'r Gymraeg;
6.15.7 Archwilio.

Gellir dod o hyd i ddarpariaethau templed ar gyfer y materion uchod ar y Dudalen Caffael Corfforaethol ar y Fewnrwyd.

6.16 Pan fo manyleb berthnasol a gyhoeddir gan y Sefydliad Safonau Prydeinig yn gyfredol ar ddyddiad y tendr, bydd holl fanylebau'r Cyngor yn gofyn o leiaf y bydd y nwyddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth gyflawni'r Contract yn unol â'r fanyleb honno neu’n gyfwerth â hi.

6.17 Mae'r Cyngor yn llofnodwr Siarter Dur y DU. Rhaid i'r Prif Swyddog Priodol ystyried a yw cyflawni unrhyw un o'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Siarter yn berthnasol i'r Contract sy'n cael ei gaffael ac, os felly, cysylltu â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol i sicrhau bod darpariaethau priodol yn cael eu cynnwys yn y dogfennau caffael. Gellir gweld copi o Siarter Dur y DU ar y dudalen Mewnrwyd Caffael Corfforaethol.

6.18 Mae'r Cyngor yn llofnodwr Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi. Rhaid i'r Prif Swyddog Priodol sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael a chysylltu â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol i sicrhau bod darpariaethau priodol yn cael eu cynnwys yn y dogfennau caffael. Mae copi o God Ymarfer

Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi i'w weld ar y dudalen Mewnrwyd Caffael Corfforaethol.

6.19 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Llywodraeth Cymru ar Gyfrifon Banc Prosiectau. Rhaid i'r Prif Swyddog Priodol ystyried a yw taliad drwy gyfrif banc prosiectau (CBP) yn briodol ar gyfer unrhyw Gontract adeiladu neu seilwaith (neu Gontract arall sydd â chadwyn gyflenwi is-gontractio sylweddol) o dros 6 mis o hyd ac sy'n werth £2m neu fwy a lle mae cyfleoedd is-gontractio yn werth 1% neu fwy o werth y contract. Bydd angen defnyddio taliad drwy CBP ar gyfer Contractau o'r fath oni bai bod rhesymau cymhellol dros beidio â gwneud hynny. Rhaid cymhwyso'r defnydd o daliad drwy CBP i bob prosiect adeiladu a seilwaith ac unrhyw gontractau priodol eraill gwerth £2m neu fwy sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu'n llawn gan Lywodraeth Cymru lle mae telerau cyllid o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i CBP gael ei gymhwyso.

## 7. Trothwyon a Gofynion Hysbysebu

7.1 Nid yw trothwyon caffael yn berthnasol i Gytundebau Fframwaith presennol a gymeradwywyd i'w defnyddio gan y Cyngor.

7.2 Mae trothwyon ar gyfer pob <u>nwydd a gwasanaeth</u> (ac eithrio Contractau gwaith) a gofynion hysbysebu fel a ganlyn ac fe'u nodir yn y Crynodeb Hysbysebu (gellir dod o hyd i gopi ar y Dudalen Caffael Corfforaethol):

7.2.1 Hyd at £10,000 - mae ond yn angenrheidiol dangos bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, oni bai bod unrhyw amodau cyllid grant yn pennu fel arall.

7.2.2 Dros £10,000 i £25,000 - o leiaf 3 dyfynbris i'w ceisio gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar GwerthwchiGymru, oni bai bod unrhyw amodau cyllid grant yn pennu fel arall. Mae'n rhaid i bob dyfynbris gael ei gynnal yn electronig.

7.2.3 Dros £25,000 i £100,000 - bydd yr holl ofynion yn cael eu hysbysebu'n agored ar GwerthwchiGymru lle bo hynny'n ymarferol ac ar yr amod ei fod yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian. Rhaid gwahodd o leiaf dri dyfynbris wrth ddilyn gweithdrefn gyfyngedig neu pan na chyhoeddwyd hysbyseb, oni bai bod unrhyw amodau cyllid grant yn pennu fel arall. Mae'n rhaid i bob dyfynbris gael ei gynnal yn electronig.

7.2.4 Dros £100,000 i drothwyon y Rheoliadau - rhaid tendro'r gofynion, a'u hysbysebu ar GwerthwchiGymru (o leiaf). Pan fo'r weithdrefn gyfyngedig yn cael ei defnyddio, rhaid gwahodd o leiaf bum tendr, oni bai bod unrhyw amodau cyllid grant yn pennu fel arall. Mae'n rhaid i bob tendr gael ei gynnal yn electronig.

7.2.5 Uwchben trothwy'r Rheoliadau, rhaid tendro a hysbysebu gofynion ar Find a Tender, ynghyd â'r cyfryw hysbysebu arall a gyfarwyddir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol. Mae'n rhaid i bob tendr gael ei gynnal yn electronig.

7.3 Mae trothwyon ar gyfer Contractau Gwaith a gofynion hysbysebu fel a ganlyn ac fe'u nodir yn y Crynodeb Hysbysebu (gellir dod o hyd i gopi ar y Dudalen Caffael Corfforaethol):

7.3.1 Contract hyd at £10,000 - nid oes ond angen arddangos bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni, gan ddefnyddio contractwyr sydd ag achrediad Safety Schemes in Procurement (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio ar Constructionline oni bai bod unrhyw amodau Grant yn pennu fel arall.

7.3.2 Dros £10,000-£25,000 - dyfynbrisiau i'w ceisio gan o leiaf dri darpar Dendrwr sydd ag achrediad Safety Schemes in Procurement (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio ar Constructionline, oni bai bod unrhyw amodau grant yn pennu fel arall. Lle nad yw'r nifer leiaf o Dendrwyr sydd eu hangen drwy Constructionline ar gael, bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn rhoi hysbyseb ar GwerthwchiGymru ar gyfer y gofyniad. Mae'n rhaid i bob dyfynbris gael ei gynnal yn electronig.

7.3.3 Dros £25,000 i £250,000 - dyfynbrisiau i'w ceisio gan o leiaf bum darpar Dendrwr sydd ag achrediad Safety Schemes in Procurement (SSIP) ac sydd wedi'u cofrestru a'u gwirio ar Constructionline / lle nad yw'r nifer leiaf o Dendrwyr sydd eu hangen trwy Constructionline ar gael, bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn rhoi hysbyseb ar GwerthwchiGymru ar gyfer y gofyniad. Mae'n rhaid i bob dyfynbris gael ei gynnal yn electronig.

7.3.4 Dros £250,000 i drothwyon y Rheoliadau - rhaid i ofynion gael eu tendro a'u hysbysebu ar GwerthwchiGymru, oni bai bod unrhyw amodau cyllid grant yn pennu fel arall. Mae'n rhaid i bob tendr gael ei gynnal yn electronig.

7.3.5 Uwchben trothwyon y Rheoliadau, rhaid tendro a hysbysebu gofynion ar Find a Tender, ynghyd â'r cyfryw hysbysebu arall a gyfarwyddir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol. Mae'n rhaid i bob tendr gael ei gynnal yn electronig.

7.4 Pan ystyrir ei bod yn briodol defnyddio hysbysebion ychwanegol e.e. gofynion arbenigol, dylid eu rhoi mewn un neu fwy o'r canlynol:

- Papur newydd lleol.
- Cyfnodolyn Masnach.

7.5 Lle mae hysbysebion ychwanegol wedi'u gosod fel yr amlinellir yn Rheol 7.4 bydd yr hysbyseb:

- Yn nodi manylion y Contract y mae'r Cyngor yn dymuno ymrwymo iddo.
- Yn gwahodd unigolion neu gyrff sydd â diddordeb i wneud cais am ganiatâd i dendro.
- Yn pennu terfyn amser o ddim llai na 14 diwrnod i'r Cyngor dderbyn ceisiadau neu dendrau o'r fath, ac eithrio pan fo deddfwriaeth neu

amodau cyllido yn pennu cyfnod amser gwahanol. Yn nodi'r meini prawf a'r pwysoliad i'w defnyddio i ddewis Tendrwr a dyfarnu'r Contract, oni nodir hyn yn y Gwahoddiad i Dendro.

## 8. Ymchwil ac Ymgynghoriad ar y Farchnad Cyn Tendro

8.1 Gall y Cyngor gynnal ymgynghoriad ar y farchnad cyn cyhoeddi unrhyw Dendr. Gall hyn gynnwys ceisio neu dderbyn cyngor gan y farchnad. Gellir defnyddio'r cyngor hwn wrth gynllunio a chynnal y broses gaffael cyn belled nad yw'n ystumio cystadleuaeth neu’n torri egwyddorion gwrthwahaniaethu a thryloywder.

## 9. Caffael gan Ymgynghorwyr

9.1 Pan fo'r Cyngor yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw gaffael, bydd y Prif Swyddog Priodol yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn cyflawni unrhyw gaffael yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn.

9.2 Rhaid gwneud pob penderfyniad yn unol â Chynllun Dirprwyo Swyddogaethau'r Cyngor.

9.3 Ni fydd unrhyw ymgynghorydd yn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch dyfarnu Contract neu i bwy y dylid dyfarnu contract. Bydd y Prif Swyddog Priodol yn sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd mewn perthynas â chaffael yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn a deddfwriaeth.

9.4 Pan fo'r Cyngor yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw gaffaeliad rhaid i'r ymgynghorydd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai godi i'r Prif Swyddog Priodol perthnasol cyn dechrau'r broses gaffael neu ar yr adeg pan ddaw'r Contractwr yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau posibl o'r fath.

9.5 Pan fo'r Prif Swyddog Priodol o'r farn bod gwrthdaro buddiannau o'r fath yn arwyddocaol ni chaniateir i'r ymgynghorydd gymryd rhan yn y broses gaffael.

## 10. Gweithdrefnau Caffael Eraill

10.1 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir defnyddio'r weithdrefn a drafodwyd heb ei chyhoeddi ymlaen llaw, partneriaethau arloesol, y weithdrefn gystadleuol gyda negodi a deialog gystadleuol fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Swyddog Cyllid a chydag ymgynghoriad ymlaen llaw gyda'r Aelod Cabinet priodol a'r Swyddog Monitro.

10.2 Dim ond ar ôl ymgynghori a chael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol y gellir defnyddio contractau neilltuol, consesiynol a systemau prynu deinamig.

## 11. Enwi Cynhyrchion, Is-gontractwyr a Chyflenwyr

11.1 Mae'r egwyddor o driniaeth wrthwahaniaethol a chyfartal yn cael ei thanseilio gan enwi cynhyrchion, Cyflenwyr neu Is-gontractwyr. Gellir pennu eu

cyfwerth bron bob amser a byddant yn cael eu hysbysebu gyda'r geiriad "neu gyfwerth" lle bo hynny'n bosibl.

11.2 Os yw'r Cyngor wedi penderfynu y bydd math penodol o gynnyrch neu ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei nodi fel gofyniad hanfodol ar gyfer Contract, yna rhaid i'r Prif Swyddog Priodol gymeradwyo hyn yn dilyn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

## 12. Tendro Electronig

12.1 Mae cyfleuster dyfynbris a thendro electronig bellach yn disodli'r defnydd o dendrau papur yn unol â'r Rheoliadau. Rhaid i bob dyfynbris electronig a thendr gael eu cyhoeddi gan ddefnyddio porthol a gymeradwywyd gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol. Rhaid i'r holl staff perthnasol gael eu hyfforddi'n llawn i ddefnyddio'r system a chael eu sefydlu i ddefnyddio'r cyfleuster gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

12.2 Ar gyfer yr holl ddyfynbrisiau a thendrau a gyhoeddir, rhaid lanlwytho'r Contract a ddyfarnwyd i'r Gofrestr Contractau Corfforaethol ar y porthol cymeradwy.

12.3 Rhaid gosod hysbyseb yn unol â Rheol 7. Mae'n rhaid i unrhyw hysbyseb a roddir ar GwerthwchiGymru roi gwybod i ddarpar gynigwyr am y gofyniad a'r angen i gofrestru ar y porthol eDendroCymru cymeradwy. Dylai'r hysbyseb nodi bod yn rhaid i gynigwyr gael JAVA i gael mynediad at y porthol eDendroCymru ac ymateb yn electronig.

12.4 Rhaid cwblhau pob gohebiaeth rhwng y Cyngor a'r cynigwyr drwy'r porthol cymeradwy i gynnal llwybr archwilio diffiniedig. Ni ddylid e-bostio gohebiaeth y tu allan i'r porthol o dan unrhyw amgylchiadau. Dim ond trwy'r arbenigwr categori perthnasol y dylid cyfathrebu unrhyw gyfathrebiadau llafar sy'n benodol i'r dyfynbris neu'r tendr a rhaid eu cadarnhau drwy'r porthol. Rhaid cyhoeddi pob cwestiwn eglurhaol i bob darpar gynigiwr, lle bo hynny'n berthnasol, h.y. nid yw'n fasnachol sensitif.

12.5 Rhaid i'r gofynion ar gyfer cyflwyno ceisiadau gael eu nodi yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (GiD) a gyhoeddir i gynigwyr drwy'r porthol. Bydd hyn yn nodi'r dyddiad dychwelyd a'r amser; fel arfer 12 hanner dydd ar y dyddiad y cytunwyd arno. Mae'r amser a'r dyddiad pan fydd cynigwyr yn lanlwytho eu dogfennau gorffenedig i'r system yn cael eu cofnodi ac yn ffurfio rhan o gofnod archwilio.

12.6 Bydd unrhyw geisiadau hwyr a gyflwynir yn cael eu cofnodi gan y system a rhaid eu hanghymhwyso. Bydd angen adroddiad gan weinyddwr system y porthol na fu unrhyw gamweithrediad ar y system os bydd cynigydd yn herio'r anghymhwysiad.

12.7 Rhaid agor tendrau'n electronig yn unol â Rheol 14.

## 13. Cyflwyno a Chystodaeth Tendrau a Dyfynbrisiau

13.1 Pan wahoddir tendrau yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn neu fel arall fel y penderfynir gan y Corff Priodol, nodir y gofynion ar gyfer cyflwyno tendrau yn y ddogfen gwahoddiad i dendro.

13.2 Mae tendrau a dyfynbrisiau electronig yn cael eu cadw yn y porthol cymeradwy ac nid ydynt yn hygyrch tan y dyddiad a'r amser cau penodedig.

**14. Agor Tendrau Electronig**

14.1 Bydd dyfynbrisiau neu dendrau ar gyfer gofynion sydd â gwerth neu swm amcangyfrifedig o £10,000 heb fod yn fwy na £100,000 yn cael eu hagor drwy'r porthol cymeradwy ar yr un pryd ym mhresenoldeb un swyddog o'r tîm caffael corfforaethol. Mae hyn i gynnwys yr amlen dechnegol a masnachol.

14.1 Bydd tendrau ar gyfer Contractau sydd â gwerth neu swm amcangyfrifedig o dros £100,000 heb fod yn fwy na £1,000,000 yn cael eu hagor ar yr un pryd ym mhresenoldeb dau swyddog, un wedi'i ddynodi gan y Swyddog Monitro a'r llall yn swyddog o'r tîm caffael corfforaethol. Mae hyn i gynnwys yr amlen dechnegol a masnachol.

14.3 Bydd tendrau, gan gynnwys yr amlen dechnegol a masnachol, â gwerth neu swm amcangyfrifedig cyfanredol sy'n fwy na £1,000,000 yn cael eu hagor ar yr un pryd ym mhresenoldeb y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd enwebedig a dau swyddog arall, fel arfer swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd a swyddog o'r tîm caffael corfforaethol.

14.4 Bydd pob tendr a agorir yn unol â rheol 14 yn cynnwys yr amlen Dechnegol a Masnachol o fewn y porthol cymeradwy.

14.5 Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl dendrau a dyfynbrisiau a dderbynnir drwy'r porthol cymeradwy a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro, gan gynnwys unrhyw resymau dros anghymhwyso.

**15. Diwygio Tendrau**

15.1 Os nodir gwall yn y ddogfennaeth gwahoddiad i dendro cyn y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd tendrau, bydd pob Tendrwr yn cael gwybod am y gwall a'i wahodd i addasu ei dendr.

15.2 Os bydd gwall yn y ddogfennaeth gwahoddiad i dendro yn cael ei nodi ar ôl y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd tendrau, ond cyn agor tendrau, bydd pob Tendrwr yn cael manylion am y gwall ac yn cael cyfle i dynnu'r tendr yn ôl neu gyflwyno tendr diwygiedig.

15.3 Ac eithrio fel y darperir yn Rheol 15, ni chaiff tendr ei ddiwygio gan y Tendrwr ar ôl iddo gael ei dderbyn oni bai bod ei archwiliad ohono'n datgelu gwallau neu anghysondebau a fyddai'n effeithio ar y ffigur tendro mewn tendr a fyddai fel arall yn llwyddiannus, ac os felly:

15.3.1 Os nad yw'r gwall yn rhifyddol, bydd y Tendrwr yn cael manylion y gwall(au) a rhoddir cyfle iddo gadarnhau heb ddiwygiad neu dynnu'r tendr yn ôl, neu

15.3.2 Os yw'r gwall yn rhifyddol, bydd y Prif Swyddog Priodol yn cywiro'r gwall(au) ar yr amod, ar wahân i'r gwall(au) rhifyddeg dilys hwn, na chaniateir diwygiad na chymhwyster arall.

## 16. Trafodaethau ac Eglurhad ar ôl Tendro

16.1 Pan fydd caffael yn cael ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau naill ai trwy'r partneriaethau agored, cyfyngedig, arloesol neu weithdrefnau deialog gystadleuol, ni chaniateir unrhyw drafodaethau ar ôl tendro. Rhaid i unrhyw drafodaeth mewn perthynas â'r weithdrefn gystadleuol gyda negodi gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau.

16.2 Gall y swyddog cyfrifol ofyn am eglurhad gan dendrwyr lle bo hynny'n briodol mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

16.3 Lle nad yw caffaeliadau yn fwy na throthwyon y Rheoliadau, gall y Prif Swyddog Priodol awdurdodi trafodaethau mewn amgylchiadau eithriadol, yn dilyn agor tendrau a chyn eu derbyn, yn amodol ar gydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion deddfwriaethol, a dim ond lle:

(a) Y gwnaed diwygiadau i unrhyw fanyleb berthnasol ers y gwahoddiad i dendro, na ellid fod wedi'u rhagweld ar y cam gwahodd, neu

(b) Mae nifer y nwyddau, gwaith neu wasanaethau sy'n ofynnol gan y Cyngor wedi cynyddu neu ostwng yn sylweddol ers y gwahoddiad i dendro, neu

(c) Mai dim ond un tendr sydd wedi'i dderbyn, neu

(d) Mae prisiau tendro yn uwch na thargedau ariannol a bennwyd ymlaen llaw gan y Cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgor priodol,

Ym mhob achos, mae'n rhaid bod y posibilrwydd o drafodaethau o'r fath wedi'i nodi yn y gwahoddiad i dendro.

16.4 Cynhelir trafodaethau mewn modd sy'n trin pob Tendrwr yn gyfartal ac sy’n wrthwahaniaethol a thryloyw bob amser yn ystod y broses gaffael, a bydd y Prif Swyddog Priodol yn gwneud cofnod llawn o'r trafodaethau a fydd yn cynnwys enwau'r swyddogion dan sylw, cofnodion yr holl gyfarfodydd a chopïau o'r holl ohebiaeth berthnasol a dogfennau eraill.

## 17. Gwerthuso Tendrau

17.1 Bydd y Prif Swyddog Priodol yn archwilio tendrau yn unol â meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw.

17.2 O ran pob tendr, y meini prawf tendro fydd Y Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol (a all fod y pris isaf/uchaf dim ond lle bo hynny'n briodol) a bydd y

meini prawf gwerthuso fel isafswm yn cael eu rhestru yn y ddogfennaeth Gwahoddiad i Dendro yn nhrefn eu pwysigrwydd. Rhaid nodi unrhyw sgôr neu bwysoliad penodol y gellir ei briodoli i unrhyw feini prawf ac is-feini prawf yn glir. Yn ogystal, rhaid cadw at y meini prawf yn llym a rhaid iddynt beidio â chael eu newid trwy gydol y weithdrefn dyfarnu Contract.

## 18. Derbyn a Dyfarnu Tendrau

18.1 Dyfernir Contract yn amodol ar feini prawf gwerthuso'r tendr yn unig, a bennir yn y ddogfen gwahoddiad i dendro.

18.2 Gall tendrau ar gyfer Contractau sydd â gwerth amcangyfrifedig o fwy na £5,000,000 gael eu gwahodd a'u derbyn gan y Corff Priodol yn unig oni bai bod y pŵer i wneud hynny wedi'i ddyrannu neu ei ddirprwyo'n benodol i'r Aelod Cabinet priodol neu'r Prif Swyddog Priodol.

18.3 Ni dderbynnir unrhyw dendr sy'n ymwneud â Chontract y mae Adrannau 2 i 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997 yn gymwys iddo, heb gymeradwyaeth y Swyddog Monitro.

18.4 Cyn i dendr gael ei dderbyn ac eithrio ar gyfer gwerthu nwyddau, rhaid i'r Prif Swyddog Priodol gael cadarnhad y Prif Swyddog Cyllid bod statws ariannol y Tendrwr yn foddhaol, oni bai bod y Tendrwr eisoes wedi'i gymeradwyo gan ddefnyddio rhag-gymhwysiad y broses dendro.

18.5 Bydd dyfarnu unrhyw Gontract yn unol â'r Rheoliadau ac unrhyw Ofynion Cyfreithiol eraill.

18.6 Os yw'r broses o ddyfarnu unrhyw Gontract yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, bydd cyfnod segur o 10 diwrnod calendr o leiaf rhwng cyfathrebu'r penderfyniad o'r bwriad i ddyfarnu'r Contract i'r partïon hynny a ddewiswyd i dendro, neu a wnaeth gais i gael eu dewis i dendro, ac ymrwymo i'r Contract hwnnw.

18.7 Ni ddylid cyhoeddi llythyrau cyfnod segur a gyhoeddir fel rhan o broses dendro o dan y Rheoliadau cyn cadarnhau'r dyfarniad yn unol â chyfansoddiad y Cyngor.

18.8 Rhaid cynnwys adborth i dendrau aflwyddiannus yn y llythyrau cyfnod segur a rhaid iddo gynnwys nodweddion a manteision cymharol y tendr a ddewiswyd. Ar gyfer Contractau sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau, rhaid cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hefyd.

18.9 Lle mae tendr uwchben trothwy'r Rheoliadau wedi'i dendro a'i hysbysebu ar GwerthwchiGymru, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Dyfarnu Contract ar GwerthwchiGymru a fydd hefyd yn cael ei gynnwys ar Find a Tender, cyn gynted â phosibl ar ôl y penderfyniad i ddyfarnu a pha un bynnag heb fod yn hwyrach na 30 diwrnod calendr ar ôl dyddiad dyfarnu'r Contract.

18.10 Rhaid cyfathrebu'r holl ohebiaeth sy'n hysbysu canlyniadau gwerthuso drwy'r porthol cymeradwy

## 19. Llythyrau o Fwriad

19.1 Dim ond gyda chytundeb y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, Adnoddau Dynol a’r Swyddog Polisi Corfforaethol a Monitro y bydd Llythyrau o Fwriad yn cael eu defnyddio a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn.

19.2 Lle na chytunir yn llawn ar delerau ac amodau'r Contract, ni chaniateir unrhyw Gontractwr ar y safle i ddechrau gwaith rhagarweiniol nes bod asesiad risg llawn wedi'i gynnal gan y Prif Swyddog Priodol ynghylch goblygiadau posibl i'r Cyngor drwy adael i’r Contractwr ddechrau ar y safle cyn i delerau ac amodau'r Contract gael eu cwblhau.

**20. Gweithredu Contractau**

20.1 Rhaid i bob Contract nad yw'n fwy na £500,000 mewn swm neu werth fod yn ysgrifenedig ar ffurf a gymeradwywyd gan y Swyddog Monitro, sef y Ffurflen Tendr. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r Ffurflen Tendr yn y sefyllfaoedd canlynol a rhaid ymrwymo i Gontract ffurfiol.:

(a) lle mae'r Gyfarwyddiaeth briodol wedi asesu lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r Contract a'i bod yn ystyried lefel y risg yn uchel; neu

(b) lle mae'n rhaid gweithredu'r Contract o dan sêl.

Rhaid i'r Ffurflen Tendr gael ei chyhoeddi fel rhan o'r tendr a rhaid i'r cynigydd ei llofnodi a'i dychwelyd. Ar ddyfarnu'r contract rhaid i'r Ffurflen Tendr lofnodedig gael ei chyhoeddi gyda’r llythyr dyfarnu, wedi'i lofnodi naill ai gan Brif Swyddog Priodol y Swyddog Monitro, neu swyddog arall sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig i lofnodi ar ran y Prif Swyddog Priodol neu'r Swyddog Monitro. Dylai'r ddau barti gadw Ffurflen Tendr wedi'i llofnodi.

20.2 Cyfeirir pob Contract, gan gynnwys fframweithiau sy'n fwy na £500,000 mewn swm neu werth at y Cyfreithiwr ar gyfer y Cyngor i'w gymeradwyo.

20.3 Gall Contractau ysgrifenedig neu orchmynion swyddogol nad ydynt yn fwy na £500,000 mewn swm neu werth gael eu llofnodi naill ai gan y Prif Swyddog Priodol neu gan swyddog sydd wedi'i awdurdodi’n ysgrifenedig i'w cymeradwyo ar ran y Prif Swyddog Priodol.

20.4 Bydd angen cytundeb perfformiad ar bob Contract ar gyfer Gwaith (ac eithrio Cytundebau Fframwaith) o fwy na £1,000,000 ac, ar gyfer Contractau sy'n is na'r terfyn hwn, bydd y Prif Swyddog Priodol yn penderfynu ar yr angen am Gytundeb Perfformiad yn seiliedig ar asesiad risg ar gyfer y Contract hwnnw. Bydd Sicrwydd yn cael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid.

20.5 Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer pob Contract gwasanaeth i benderfynu ar yr angen am gytundeb perfformiad. Mae angen cymeradwyaeth y Prif Swyddog Cyllid lle nad ystyrir bod cytundeb perfformiad yn angenrheidiol ar gyfer contractau gwasanaeth sy'n werth dros £1,000,000.

20.6 Gellir llofnodi Contractau nad ydynt yn fwy na £500,000 yn electronig ac eithrio yn y sefyllfaoedd canlynol:

(a) lle mae'r Gyfarwyddiaeth briodol wedi asesu lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r Contract a'i bod yn ystyried lefel y risg yn uchel; neu

(b) lle mae'n rhaid gweithredu'r Contract o dan sêl.

Rhaid i'r defnydd o lofnod electronig fod yn unol â'r weithdrefn a nodir gan y Rheolwr Caffael Corfforaethol.

## 21. Aseiniad a Newyddiad

21.1 Rhaid cyfeirio unrhyw Gontract sy'n amodol ar aseiniad neu newyddiad posibl at y Swyddog Monitro cyn gynted â phosibl.

## 22. Terfynu Contractau

22.1 Ar gyfer unrhyw Gontract, neu ran ohono, sy'n werth mwy na £100,000, bydd terfyniad cynnar yn cael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Priodol mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid a rhaid iddo fod yn unol â'r darpariaethau terfynu a nodir yn y Contract. Gellir terfynu contractau o werth llai yn gynnar trwy gytundeb cyn y dyddiad dod i ben neu yn unol â'r darpariaethau terfynu a nodir yn y Contract.

## 23. Terfynau Ariannol

23.1 Ac eithrio'r terfyn ariannol a bennir yn Rheol 20, a all gael ei amrywio gan y Cyngor yn unig, gall y terfynau ariannol a bennir yn y Rheolau Gweithdrefn Gontractau hyn neu unrhyw un ohonynt gael eu hamrywio ar unrhyw adeg gan y Prif Swyddog Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, ond bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

## 24. Cadw a Rheoli Cofnodion a Dogfennau

24.1 Dylid ysgrifennu a chadw adroddiad llawn o'r holl Gontractau a ddyfarnwyd yn electronig. (Gellir gweld rhestr wirio o'r hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys ar y Dudalen Caffael Corfforaethol.)

24.2 Dylid sganio a lanlwytho cofnod llawn o'r holl ddogfennau a ddefnyddir gan gynnwys y Pŵer Dirprwyedig i wahodd a derbyn ac unrhyw gymeradwyaeth fewnol arall, i'r porthol cymeradwy neu’r gyriant ‘o’ caffaeliadau yn erbyn cyfeirnod penodol y Contract.

24.3 Rhaid cadw pob Contract o dan sêl h.y. Gweithredoedd (gan gynnwys Tendrau) am o leiaf 12 mlynedd ar ôl i dymor y Contract ddod i ben. Rhaid cadw Contractau nad ydynt wedi'u selio am o leiaf 6 blynedd ar ôl i dymor y Contract ddod i ben, oni bai bod angen cyfnod hirach yn ôl deddfwriaeth neu amodau grant.

24.4 Bydd dogfennau tendr a rhag-gymhwyso aflwyddiannus sydd wedi'u derbyn at ddibenion tendro yn cael eu cadw am o leiaf 2 flynedd ar ôl dechrau'r Contract o fewn y porthol cymeradwy.

24.5 Bydd unrhyw dendr sy'n cael ei wrthod neu anghymhwyso ar yr adeg agor yn cael ei hysbysu drwy'r porthol cymeradwy.

24.6 Rhaid cadw'r holl geisiadau am ddyfynbrisiau am o leiaf 2 flynedd ar ôl i gyfnod y Contract ddod i ben.

24.7 Pan fo Contractau yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â gofynion cofnodi, cadw dogfennau a rheoli'r Rheoliadau.

## 25. Rheoli Contractau

25.1 Ni ddylai Contract ddechrau nes bod y Contract wedi'i lofnodi neu ei selio gan y ddau barti a'i ddyddio. Rhaid i gyfarwyddiaethau ganiatáu amser ar gyfer hyn yn eu blaengynllun gwaith.

25.2 O fewn deg diwrnod calendr i ddechrau'r Contract, rhaid i'r gyfarwyddiaeth ychwanegu manylion y Contract at y Gofrestr Contractau Corfforaethol a chofnodi'r holl wybodaeth angenrheidiol o fewn eDendro Cymru.

Rhaid cadw'r manylion hyn a'u diweddaru yn ôl yr angen. Dylai swyddogion gysylltu â'r Rheolwr Caffael Corfforaethol os oes angen hyfforddiant.

25.3 Y Gyfarwyddiaeth fydd y rheolwr Contract ar gyfer y Contractau y mae'n gyfrifol amdanynt hyd at drothwy'r Rheoliadau, ond gall awdurdodi swyddog arall i fod â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli'r Contract. Ar gyfer Contractau dros drothwy'r Rheoliadau, rhaid i'r gyfarwyddiaeth benodi rheolwr Contract penodedig sydd â sgiliau a phrofiad priodol.

25.4 Mae'r rheolwr Contract yn gyfrifol am:

(a) Rheoli'r Contract a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni yn unol â'i delerau ac amodau;

(b) Monitro perfformiad y Contractwr a chynnal adolygiadau canol-Contract i bennu gwerth parhaus am arian;

(c) Sicrhau bod y Contractwr yn cynnal y polisïau yswiriant sy'n ofynnol gan y Contract; a

(d) Cadw cofnod o'r holl daliadau, hawliadau, monitro, newidiadau a thystysgrifau o dan y Contract.

25.5 Rhaid i'r rheolwr Contract ymgynghori â'r Swyddog Monitro i ystyried sefyllfa gyfreithiol y Cyngor:

(a) Cyn i unrhyw Gontract gael ei derfynu neu ei atal; neu

(b) Os bydd hawliad am daliad nad yw o fewn telerau ac amodau'r Contract yn glir.

## 26. Cofrestr Contractau Corfforaethol

26.1 Mae'r Gofrestr Contractau Corfforaethol yn cael ei chadw o fewn y porthol cymeradwy a rhaid i bob dyfynbris a thendr a gynhelir gael ei wneud i mewn i Gontract. Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddiaeth yw creu a chynnal eu Contractau eu hunain o fewn y porthol.

26.2 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddiaeth yw diweddaru'r gofrestr yn dilyn dyfynbris neu broses dendro o fewn y porthol cymeradwy.

26.3 Rhaid i unrhyw swyddog sydd angen hyfforddiant gysylltu â'r uned caffael corfforaethol.

## 27. Adolygu a Diwygio Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

27.1 Bydd y Rheolwr Caffael Corfforaethol yn adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Gontractio hyn yn barhaus a bydd yn cynnal adolygiad ffurfiol o leiaf bob tair blynedd.

27.2 Ac eithrio Rheol 23.1 bydd gan y Swyddog Monitro awdurdod i wneud mân newidiadau neu newidiadau y mae'n ofynnol eu deddfu ar unwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol. Bydd unrhyw fân newidiadau yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.